# Newyddion Technegydd Fferylliaeth GIG Cymru

# DALWCH Y WASG

Mae rhaglenni arloesol newydd yn golygu bydd gan hyfforddai technegwyr fferylliaeth Cymraeg y cyfle i hyfforddi ar draws tri lleoliad fferylliaeth - ysbytai, fferylliaeth gymunedol a gofal sylfaenol - am y tro cyntaf.

Mae prentisiaeth dwy-flynedd modern Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sef y Rhaglen Hyfforddi Technegydd Fferylliaeth Cyn-Gofrestru, ar hyn o bryd ar gynllun arbrofol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), yn cymhwyso myfyrwyr â phrofiad aml-sectoraidd yn arwain at gofrestriad proffesiynol efo'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.



Pob wythnos bydd yr hyfforddai'n gwario dau ddiwrnod yn hyfforddi mewn ysbyty, dau ddiwrnod yn fferyllfa gymunedol, yn ogystal ag un diwrnod astudio. Yn eu hail flwyddyn bydd myfyrwyr hefyd yn cwblhau lleoliad gofal sylfaenol am gyfnod o chwe wythnos.

Y garfan newydd o dechnegwyr fferylliaeth cyn-gofrestru yn BIPAB, efo'u rheolwr llinell Linda Jones, Uwch Technegydd Fferylliaeth.



**Wedi'ch ysbrydoli gan yrfa mewn Fferylliaeth?**

Gyrfaoedd GIG Cymru
Fferylliaeth AaGIC
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Abertawe

## Mae'r rhaglen wedi cael ymateb gwych hyd yn hyn...

Dywedodd Chris Burridge, cyn-gyfrifydd: "gan weithio yn yr ysbyty, yn y gymuned ac ym maes gofal sylfaenol, rydyn ni'n mynd i weld gwahanol bethau, datblygu tair set sgiliau wahanol a chael profiad cyflawn. Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda pan fyddwn yn gorffen ein hyfforddiant ac eisiau gwneud cais am swyddi parhaol."

**I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen, ewch i Fferyllfa AaGIC**